# Rhestr termau: gwneud cais

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Amcanion

Y camau ymarferol y bydd y sefydliad yn eu cymryd i gyflawni ei nodau. Er mwyn bod yn effeithiol, dylai amcanion bob amser gael eu hysgrifennu fel eu bod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Bydd pobl yn hepgor o leiaf un o'r elfennau hyn yn rhy aml! Dylai'r prosiect bennu o leiaf un peth i'w gyflawni (neu allbwn) i ategu pob amcan (fel arall, sut y byddwch yn cyflawni'r amcan?).

## Amcanion elusennol

Yr amcanion a ddiffinnir yng nghyfraith Cymru a Lloegr fel rhai elusennol.

## Atebolrwydd cyfyngedig

Pan fydd atebolrwydd ariannol person wedi'i gyfyngu i swm penodedig.

## Buddiolwyr/defnyddwyr gwasanaeth

Y grŵp o bobl y mae amcanion sefydliad yn eu nodi fel y defnyddwyr, cleientiaid neu aelodau a fydd yn cael budd o weithgareddau'r sefydliad hwnnw.

## Bwrdd/Pwyllgor Rheoli

Y grŵp o unigolion sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli eich sefydliad yn strategol (gweler dogfen Strwythur y Sefydliad).

## Bwrdd/Pwyllgor Rheoli (Ymddiriedolwyr/Aelodau'r Pwyllgor/Cyfarwyddwyr)

Y grŵp o unigolion, a elwir yn Aelodau'r Bwrdd/Pwyllgor, Ymddiriedolwyr neu Gyfarwyddwyr fel arfer, sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli eich sefydliad yn strategol (gweler dogfen Strwythur y Sefydliad).

## Clwb neu gymdeithas anghorfforedig

Math o endid cyfreithiol heb atebolrwydd cyfyngedig.

## Cronfeydd anghyfyngedig

Incwm sydd ar gael yn rhwydd i'w wario ar unrhyw rai o ddibenion yr elusen.

## Cwmni Buddiannau Cymunedol

Cwmni Buddiannau Cymunedol – endid cyfreithiol a grëwyd ar gyfer mentrau cymdeithasol anelusennol.

## Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

Gan amlaf, caiff cwmnïau cyfyngedig drwy warant eu ffurfio gan sefydliadau nid er elw fel clybiau chwaraeon, cwmnïau cydweithredol gweithwyr a sefydliadau aelodaeth y mae eu perchenogion yn awyddus i gael budd o atebolrwydd ariannol cyfyngedig.

## Cyfansoddiad

Dogfen lywodraethu sefydliad yw cyfansoddiad. Yn achos cwmnïau, fe'i gelwir yn Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, ac yn achos Cymdeithasau Cydweithredol fe'i gelwir yn Rheolau.

## Cyfleoedd

Adeg neu amgylchiadau pan fydd modd gwneud rhywbeth i gefnogi eich cymuned.

## Cyfrifon

Cofnod o'ch incwm a'ch gwariant dros gyfnod o amser (blwyddyn fel arfer). Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol i gwmnïau ac elusennau. Gall grwpiau nad ydynt wedi'u cofrestru ddewis cadw cofnod o incwm a gwariant.

## Darparu gwasanaethau

Rhoi cymorth i gefnogi pobl neu gymuned o bobl heblaw drwy gyflenwi nwyddau.

## Datganiad cenhadaeth

Datganiad byr o ddiben y sefydliad, a elwir weithiau'n nod cyffredinol.

## Defnyddwyr y gwasanaeth/Buddiolwyr

Y grŵp o bobl y mae amcanion sefydliad yn eu nodi fel y defnyddwyr, cleientiaid neu aelodau a fydd yn cael budd o weithgareddau'r sefydliad hwnnw.

## Dogfennau Ategol

Yn aml, bydd cyllidwyr yn gofyn am gael gweld dogfennau sy'n dilysu sefydliad neu'n dangos cofnod o sefyllfa ariannol (Cyfrifon), prosesau diogelu ac ati.

## Effaith

Effeithiau cyffredinol gwaith y prosiect yn y tymor hwy.

## Grantiau

Arian rhodd.

## Grŵp Cymunedol a Gyfansoddwyd

Grŵp o bobl sy'n dod ynghyd i gyflawni diben yw grŵp a gyfansoddwyd. Caiff y grŵp ei redeg yn wirfoddol a'i sefydlu fel sefydliad yn ei rinwedd ei hun sydd â phwyllgor rheoli, cyfansoddiad a'i gyfrif banc ei hun.

## Gwariant

Taliad mewn arian parod neu gredyd am nwyddau neu wasanaethau yw gwariant. Caiff gwariant ei eitemeiddio yng nghyfrifon blynyddol sefydliad.

## Gweithgareddau/Gwasanaethau

Rhoi cymorth i gefnogi pobl neu gymuned o bobl heblaw drwy gyflenwi nwyddau.

## Gwelliant parhaus

Mae hyn yn golygu mynd ati drwy'r amser i geisio dod o hyd i ffyrdd o fod yn well am wneud yr hyn a wnewch a'u rhoi ar waith. Mae'n golygu gwneud eich gorau glas drwy'r amser. Nid yw'n ddigon i sefydliad gynnal 'prosiect' ar ansawdd. Er mwyn i'r gwaith gael effaith, mae angen i sefydliadau barhau i gadw golwg ar ansawdd, o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r ffordd y cânt eu rheoli a'u llywodraethu.

## Gwerthuso

Ystyr gwerthuso yw asesu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau, amcanion, allbynnau a chanlyniadau a nodwyd ar gyfer y prosiect. Yn aml, caiff gweithgareddau gwerthuso eu gadael tan ddiwedd prosiect, ond dylent gael eu cynnwys yng nghynllun y prosiect o'r cychwyn cyntaf.

## Gwirfoddolwyr

Unigolion sy'n treulio amser, heb dâl, yn gwneud rhywbeth er budd eraill. Yr hyn sy'n ganolog i'r diffiniad hwn yw'r ffaith bod rhaid i wirfoddoli fod yn ddewis a wneir yn rhydd gan bob unigolyn.

## Incwm

Arian y bydd sefydliad yn ei gael yn gyfnewid am weithio, darparu cynnyrch neu wasanaeth, neu fuddsoddi cyfalaf yw incwm. Gallai fod ar ffurf grant, rhodd, codi arian neu godi ffi ac ati.

## Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu

Cyfansoddiad cwmni.

## Monitro

Dyma'r broses o gasglu a chofnodi gwybodaeth yn rheolaidd. Mae'n cadw cyfrif o gynnydd a gwaith a wnaed i gyflawni'r nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer eich prosiect. Gallwch fonitro cynnydd drwy gasglu gwybodaeth am eich dangosyddion perfformiad a'ch targedau.

## Nodau

Datganiadau o fwriad yw nodau. Cânt eu hysgrifennu mewn ffordd gyffredinol fel arfer. Maent yn disgrifio'r newidiadau y mae'r sefydliad yn bwriadu eu sicrhau.

## Partneriaeth

Unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio gyda chi i gyflawni nodau eich gwaith/prosiect. Mae partneriaid yn rhanddeiliaid

## Rhif cofrestru

Dyma'r rhif a roddir i sefydliadau fel elusennau a chwmnïau/cwmnïau buddiannau cymunedol sy'n cofrestru â rheoleiddiwr fel y Comisiwn Elusennau neu Dŷ'r Cwmnïau.

## Rhif Comisiwn Elusennau

Dyma'r rhif a roddir i sefydliadau fel elusennau a chwmnïau/cwmnïau buddiannau cymunedol sy'n cofrestru â rheoleiddiwr fel y Comisiwn Elusennau neu Dŷ'r Cwmnïau.

## Rhif cwmni

Dyma'r rhif a roddir i sefydliadau fel elusennau a chwmnïau/cwmnïau buddiannau cymunedol sy'n cofrestru â rheoleiddiwr fel y Comisiwn Elusennau neu Dŷ'r Cwmnïau.

## Sefydliad Corfforedig Elusennol

Ffurf gorfforedig newydd a grëwyd gan Ddeddf Elusennau 2006 yw Sefydliad Corfforedig Elusennol. Mae Sefydliad Corfforedig Elusennol yn debyg i gwmni cyfyngedig drwy warant mewn sawl ffordd, ond dim ond sefydliad elusennol sy'n gallu arddel statws Sefydliad Corfforedig Elusennol.

## Ymgynghori â'r gymuned

Proses a phartneriaeth wirioneddol rhwng y gymuned (neu'r buddiolwyr/defnyddwyr gwasanaeth) a darparwr y gwasanaeth yw ymgynghori â'r gymuned, ac mae'n helpu i lywio gwaith sefydliad er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn berthnasol ac yn briodol i anghenion y bobl a wasanaethir ganddo.